WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Cynllun Ffioedd 2014

## Ail ddiwygiad

Mae hwn yn gynllun ffioedd a baratowyd gan Swyddfa Archwilio Cymru o dan adran 24 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Dyma'r ail Gynllun Ffioedd i'w gyhoeddi gan Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n berthnasol ar gyfer 2014 a'r blynyddoedd calendr dilynol oni bai ei fod yn cael ei ddiwygio neu ei ail-wneud. Mae'r Cynllun Ffioedd hwn yn disodli yr un a gymeradwywyd gan Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 20 Mawrth 2014.

Cyflwynir y cynllun ffioedd hwn gerbron y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 24(4)(c) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

# Cynnwys


## Cynllun Ffioedd

Cyflwyniad 4

Rhestr deddfiadau 5

Graddfeydd ffioedd 6

Ffioedd eraill 6

Talu ffioedd 7

## Atodiadau

Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 – testun llawn ar gyfer adran 24 8

Graddfeydd ffioedd Swyddfa Archwilio Cymru o 1 Ebrill 2014 9

# Cyflwyniad

1 Paratowyd y cynllun ffioedd hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru o dan adran 24 o Ddeddf Archwilio (Cymru) 2013 (y Ddeddf) (Atodiad 1). Bydd y cynllun ffioedd, ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol, yn darparu'r sail y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn ei ddefnyddio i godi ffioedd.

2 Mae'r Cynllun Ffioedd hwn yn disodli yr un a gymeradwywyd gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol ar 20 Mawrth 2014 gan ei fod bellach yn cynnwys graddfeydd ffioedd ar gyfer gweithgareddau a amlinellir ym mharagraff 11. O dan y Ddeddf, nid oedd gan Swyddfa Archwilio Cymru bwerau i ragnodi ar gyfer y gweithgareddau hyn cyn 1 Ebrill 2014.

3 Yn gyffredinol, mae'r cynllun ffioedd yn nodi'r canlynol:

- y deddfiadau sy'n rheoli'r modd y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn codi ffioedd archwilio; ac
- y trefniadau ar gyfer pennu'r ffioedd hynny.

4 Mae trefniadau Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys naill ai:

- graddfeydd ffioedd sy'n nodi amrediad ffioedd ar gyfer meysydd gwaith archwilio penodol (paragraffau 8 i 11); neu
- cyfraddau ffioedd ar gyfer gwaith nad yw graddfeydd ffioedd yn eu cwmpasu (paragraffau 12 i 14).

5 Bydd llawer o'r gwaith archwilio a gyflawnir yn ystod 2014-15 yn berthnasol i flwyddyn ariannol 2013-14 a bydd yn cael ei gyflawni dan bwerau codi ffioedd yr Archwilydd Cyffredinol, yn hytrach na phwerau Swyddfa Archwilio Cymru.

6 Ffioedd archwilio yw prif ffynhonnell cyllid Swyddfa Archwilio Cymru, ond nid yr unig ffynhonnell. Mae gwybodaeth lawn am gyllid Swyddfa Archwilio Cymru wedi'i chynnwys yn yr amcan gyfrifon blynyddol o incwm a gwariant sydd wedi'u cyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

# Rhestr deddfiadau

7 Mae Arddangosyn 1 yn rhestru'r deddfiadau statudol sy'n pennu pryd y gall a phryd y mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd, fel yr oeddynt ar 1 Ebrill 2014.

Arddangosyn 1: Deddfiadau statudol ar gyfer codi ffioedd

| Natur y gwaith | Deddfiadau statudol |
|---|---|
| **Gall Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd am y gweithgareddau canlynol** | |
| • Archwilio cyfrifon gan yr Archwilydd Cyffredinol (heblaw cyfrifon llywodraeth leol) | Adran 23(2) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| • Astudiaethau gwerth am arian a gyflawnir dan gytundeb | Adran 23(3)(a)-(c) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| • Unrhyw wasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol i'w darparu gan Swyddfa Archwilio Cymru neu'r Archwilydd Cyffredinol drwy drefniant o dan adran 19 y Ddeddf | Adran 23(3)(d) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| • Archwiliad eithriadol o gorff llywodraeth leol | Adran 37(8) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) Act 2004 |
| • Ymarferion paru data<br>• Mae'n rhaid pennu graddfa ffioedd ar gyfer y gwaith hwn | Adran 64F(A1) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 |
| **Mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd am y gweithgareddau canlynol** | |
| • Gwaith o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009<br>• Mae'n rhaid pennu graddfa ffioedd ar gyfer y gwaith hwn | Adran 27 o fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 |
| • Gwasanaethau ardystio grantiau | Adran 23(4)(a) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| • Astudiaethau ar gais cyrff addysgol o dan adran 145B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 | Adran 23(4)(b) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| • Archwilio cyfrifon cyrff llywodraeth leol ac ymgymryd ag astudiaethau dan gytundeb â chyrff llywodraeth leol<br>• Mae'n rhaid pennu graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon cyrff llywodraeth leol | Adran 20(A1)(a)-(b) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 |
| **Darpariaethau eraill ar gyfer codi ffioedd** | |
| • Astudiaethau gweinyddu budd-daliadau ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae'n rhaid i gyfanswm y ffi fod yn gyfanswm rhesymol a gytunwyd rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol a Swyddfa Archwilio Cymru. | Adran 45 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 |
| • Cynorthwyo Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru | Adran 41A o Ddeddf Addysg 1997 |

# Graddfeydd ffioedd

8 Mae graddfeydd ffioedd yn ffordd o reoleiddio cost archwiliadau cyhoeddus, drwy bennu terfynau ac adolygu ffioedd yn erbyn y terfynau hynny. Mae graddfeydd ffioedd yn darparu fframwaith ar gyfer archwilwyr hefyd, i asesu faint o waith archwilio sy'n angenrheidiol a'r ffi i'w godi am y gwaith hwnnw ar gyfer corff penodol a archwilir.

9 Mae'n ofynnol i Swyddfa Archwilio Cymru bennu graddfeydd ffioedd ar gyfer:

- gwaith sy'n gysylltiedig ag archwilio cyrff llywodraeth leol;
- gwaith o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009; a
- gwaith paru data.[1]

10 Nid oedd Swyddfa Archwilio Cymru yn gallu pennu'r graddfeydd ffioedd hyn tan 1 Ebrill 2014 ac felly mae'r cynllun ffioedd hwn wedi ei ddiweddaru i gynnwys y graddfeydd ffioedd a ymgynghorwyd arnynt ac a bennwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Mawrth 2014.

11 Mae graddfeydd ffioedd ar gyfer archwiliadau o gyfrifon 2013-14 ac archwiliadau ac asesiadau gwella 2014-15 wedi eu hatodi yn Atodiad 2. Mae Atodiad 2 hefyd yn cynnwys graddfeydd ffioedd ar wahân ar gyfer gwaith a gynhaliwyd mewn awdurdodau unedol, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol, comisiynwyr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid, cynghorau tref a chymuned a chronfeydd pensiwn llywodraeth leol.

# Ffioedd eraill

12 Mae ffioedd archwilio ac arolygu yn adlewyrchu cyfanswm amser staff a fydd yn cael ei dreulio ar yr archwiliad neu'r arolygiad hwnnw. Mae staff yn cael eu talu am archwiliadau ar gyfraddau fesul awr ar sail graddfeydd cyflog. Yn unol â'r Ddeddf, mae'r cyfraddau hyn fesul awr wedi'u cyfrifo fel nad ydynt yn fwy na'r gost lawn o gyflawni'r gwaith hwnnw. Mae cyfraddau fesul awr yn adlewyrchu costau uniongyrchol staff yn ogystal â chyfran briodol o orbenion. Codir ffioedd archwilio yn unol â'r cyfraddau ffioedd fesul awr a nodir yn Arddangosyn 2, oni nodir hynny yn wahanol mewn rhan arall o'r cynllun hwn. Bydd y graddfeydd hyn yn berthnasol i'r holl waith y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn codi tâl amdano o 1 Ebrill 2014 ar wahân i'r graddau y mae'r graddfeydd ffioedd a nodir yn y cynllun hwn yn rheoleiddio'r swm a godir.

13 Yn achos darparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol a gytunwyd cyn 1 Ebrill 2014, codir ffioedd yn unol â'r cytundeb perthnasol, ar yr amod nad yw'r ffioedd dan sylw yn uwch na chost lawn darparu'r gwasanaeth

14 Pan fo angen cymorth arbenigol neu gyngor cyfreithiol neu broffesiynol codir ffioedd ar gyrff archwilio yn ogystal â chostau staff Swyddfa Archwilio Cymru.

1 Nid oes angen graddfeydd ffioedd ar gyfer gwaith paru data ar hyn o bryd gan ei fod yn waith sy'n digwydd pob dwy flynedd a bydd y graddfeydd ffioedd ar ei gyfer ar gael yng Nghynllun Ffioedd 3 yn ddiweddarach yn 2014

# Talu ffioedd

Arddangosyn 2: Cyfraddau ffioedd yn ôl yr awr

| Graddfa | Cyfradd fesul awr (£ yr awr) |
|---|---|
| **Archwiliad ariannol** | |
| Arweinydd ymgysylltu | £162 |
| Rheolwr archwilio | £111 |
| Arweinydd tîm | £75 |
| Aelod o'r tîm | £56 |
| Hyfforddai | £45 |
| Technegydd | £30 |
| **Archwiliad o berfformiad** | |
| Arweinydd ymgysylltu | £173 |
| Rheolwr archwilio perfformiad | £111 |
| Arweinydd archwilio perfformiad | £93 |
| Archwilydd perfformiad | £65 |

15 Pan fo ffioedd archwilio'n cael eu pennu a'u talu ymlaen llawn, mae'r ffioedd hynny (yn ogystal â TAW lle'n briodol) yn cael eu casglu mewn rhandaliadau misol gan gyrff a archwilir, oni chytunir yn wahanol.

16 Pan fo ffioedd yn cael eu cyfrifo'n ddyddiol, mae'r ffioedd hynny (yn ogystal â TAW lle'n briodol) yn cael eu casglu pan fo'r gwaith yn cael ei gwblhau neu mewn rhandaliadau wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

# Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 – testun llawn ar gyfer adran 24

1 Rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru baratoi cynllun sy'n ymwneud â chodi ffioedd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

2 Rhaid i'r cynllun gynnwys y canlynol:

- a rhestr o'r deddfiadau y caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffi o danynt;
- b pan fo'r deddfiadau hynny yn gwneud darpariaeth i Swyddfa Archwilio Cymru ragnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd, y raddfa honno neu'r graddfeydd hynny;
- c pan fo'r deddfiadau hynny yn gwneud darpariaeth i Swyddfa Archwilio Cymru ragnodi swm i'w godi, y swm hwnnw; a
- ch phan nad oes darpariaeth wedi ei gwneud ar gyfer rhagnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd, na rhagnodi swm, y modd y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cyfrifo'r ffi a godir.

3 Caiff y cynllun wneud y canlynol ymysg pethau eraill:

- a cynnwys darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol neu ddosbarthau ar achosion gwahanol; a
- b darparu ar gyfer yr adegau a'r modd y bydd taliadau yn cael eu gwneud.

4 O ran y cynllun:

- a rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru ei adolygu o leiaf unwaith mewn blwyddyn galendr,
- b caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei ddiwygio neu ei ail-wneud ar unrhyw adeg; ac
- c rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru ei osod (a gosod unrhyw ddiwygiad iddo) gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

5 Pan fo Gweinidogion Cymru yn rhagnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd o dan:

- a adran 64F o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (ffioedd am baru data); neu
- b adran 27A o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (pŵer Gweinidogion Cymru i ragnodi graddfa ffioedd), i gael effaith yn lle graddfa neu raddfeydd ffioedd a ragnodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru ddiwygio'r cynllun i gynnwys y raddfa neu'r graddfeydd ffioedd a ragnodwyd gan Weinidogion Cymru yn lle'r rhai a ragnodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

6 Nid oes rhaid cael cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol os mai diwygiad a wneir yn unol ag isadran (5) yw'r unig ddiwygiad i gynllun.

7 Bydd y cynllun yn cael effaith pan fydd wedi cael ei gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol neu, yn achos diwygiad a wneir yn unol ag isadran (5), unwaith y bydd wedi cael ei osod gerbron y Cynulliad.

8 Rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru gyhoeddi'r cynllun (ac unrhyw ddiwygiad iddo) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi iddo gael effaith.

# Graddfeydd ffioedd Swyddfa Archwilio Cymru o 1 Ebrill 2014

## Awdurdodau unedol

### Graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon awdurdodau unedol

| Gwariant gros £000,000 | Amrediad cyfanswm ffioedd £000 | | |
|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm |
| 100 | 119 | 140 | 160 |
| 200 | 143 | 168 | 193 |
| 300 | 159 | 187 | 215 |
| 400 | 172 | 202 | 232 |
| 500 | 183 | 215 | 246 |
| 600 | 192 | 225 | 259 |
| 700 | 200 | 235 | 269 |
| 800 | 207 | 243 | 279 |
| 900 | 213 | 251 | 288 |
| 1,000 | 220 | 258 | 296 |
| 1,100 | 225 | 265 | 304 |
| 1,200 | 230 | 271 | 311 |


### Graddfa ffioedd ar gyfer archwiliadau ac asesiadau gwella mewn awdurdodau unedol

| Holl awdurdodau unedol | Amrediad cyfanswm ffioedd £000 | | |
|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm |
| | 98 | 117 | 136 |

## Graddfa cyfanswm ffioedd ar gyfer awdurdodau unedol

| Gwariant gros £000,000 | Amrediad cyfanswm ffioedd £000 | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Isafswm | Canolrif 2013-14 |
| 100 | 217 | 257 | 296 | 196 |
| 200 | 241 | 285 | 329 | 242 |
| 300 | 257 | 304 | 351 | 273 |
| 400 | 270 | 319 | 368 | 298 |
| 500 | 281 | 331 | 382 | 319 |
| 600 | 290 | 342 | 395 | 337 |
| 700 | 298 | 352 | 405 | 353 |
| 800 | 305 | 360 | 415 | 367 |
| 900 | 311 | 368 | 424 | 380 |
| 1,000 | 318 | 375 | 432 | 393 |
| 1,100 | 323 | 382 | 440 | 404 |
| 1,200 | 328 | 388 | 447 | 415 |

### Graff o raddfa cyfanswm ffioedd ar gyfer awdurdodau unedol



# Awdurdodau tân ac achub

## Graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon awdurdodau tân ac achub

| Gwariant gros £000,000 | Amrediad cyfanswm ffioedd £000 | | |
|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm |
| 20 | 34 | 41 | 47 |
| 40 | 41 | 49 | 57 |
| 60 | 46 | 55 | 63 |
| 80 | 50 | 59 | 68 |
| 100 | 53 | 63 | 72 |


## Graddfa ffioedd ar gyfer archwiliadau ac asesiadau gwella mewn awdurdodau tân ac achub

| Holl awdurdodau tân ac achub | Amrediad cyfanswm ffioedd £000 | | |
|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm |
| | 11 | 16 | 21 |

## Graddfa cyfanswm ffioedd ar gyfer awdurdodau tân ac achub

| Gwariant gros £000,000 | Amrediad cyfanswm ffioedd £000 | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm | Canolrif 2013-14 |
| 20 | 45 | 57 | 68 | 48 |
| 40 | 52 | 65 | 78 | 61 |
| 60 | 57 | 71 | 84 | 71 |
| 80 | 61 | 75 | 89 | 79 |
| 100 | 64 | 79 | 93 | 85 |

### Graff o raddfa cyfanswm ffioedd ar gyfer awdurdodau tân ac achub



# Awdurdodau parciau cenedlaethol

### Graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon awdurdodau parciau cenedlaethol

| Gwariant gros £000,000 | Amrediad cyfanswm ffioedd £000 | | |
|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm |
| 2 | 22 | 26 | 29 |
| 4 | 26 | 31 | 35 |
| 6 | 29 | 34 | 39 |
| 8 | 31 | 37 | 42 |
| 10 | 33 | 39 | 45 |


### Graddfa ffioedd ar gyfer archwiliadau ac asesiadau gwella mewn awdurdodau parciau cenedlaethol

| Holl awdurdodau parciau cenedlaethol | Amrediad cyfanswm ffioedd £000 | | |
|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm |
| | 5 | 7 | 10 |

### Graddfa cyfanswm ffioedd ar gyfer awdurdodau parciau cenedlaethol

| Gwariant gros £000,000 | Amrediad cyfanswm ffioedd £000 | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm | Canolrif 2013-14 |
| 2 | 27 | 33 | 39 | 23 |
| 4 | 31 | 38 | 45 | 30 |
| 6 | 34 | 41 | 49 | 35 |
| 8 | 36 | 44 | 52 | 39 |
| 10 | 38 | 46 | 55 | 42 |

### Graff o raddfa cyfanswm ffioedd awdurdodau parciau cenedlaethol




# Comisiynwyr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid

**Graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon comisiynwyr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid**

| Gwariant gros cyfun comisiynwyr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid £000,000 | Amrediad ffioedd cyfunol comisiynwyr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid £000 | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm | Canolrif amcangyfrifedig o'r llynedd |
| 50 | 67 | 76 | 85 | 55 i 60 |
| 100 | 78 | 89 | 100 | 73 i 79 |
| 150 | 85 | 97 | 110 | 86 i 93 |
| 200 | 90 | 104 | 117 | 96 i 105 |
| 250 | 95 | 109 | 124 | 105 i 115 |
| 300 | 99 | 114 | 129 | 113 i 123 |
| 350 | 103 | 118 | 134 | 121 i 131 |

**Graff o raddfa ffioedd ar gyfer comisiynwyr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid**



# Cynghorau tref a chymuned

**Graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon cynghorau tref a chymuned ag incwm neu wariant o hyd at £1,000,000**

| Incwm neu wariant blynyddol (mae ffioedd yn daladwy ar sail pa bynnag un yw'r uchaf bob blwyddyn) | Math o archwiliad | Ffi arfaethedig | Ffi a godwyd yn y flwyddyn flaenorol |
|---|---|---|---|
| £dim – £1,000 | Sylfaenol | £30 | Dim ffi yn daladwy |
| £1,001 – £5,000 | Sylfaenol | £80 | £60 |
| £5,001 – £10,000 | Sylfaenol | £175 | £130 |
| £10,001 – £30,000 | Sylfaenol | £205 | £150 |
| £30,001 – £60,000 | Sylfaenol | £295 | £310 |
| £60,001 – £100,000 | Sylfaenol | £350 | £425 |
| £100,001 – £200,000 | Sylfaenol | £415 | £575 |
| £200,001 – £300,000 | Canolradd | £650 | £920 |
| £300,001 – £400,000 | Canolradd | £650 | £1,100 |
| £400,001 – £500,000 | Canolradd | £650 | £1,520 |
| £500,001 – £750,000 | Canolradd | £920 | £2,045 |
| £750,001 – £1,000,000 | Canolradd | £920 | £2,625 |

# Cronfeydd pensiwn llywodraeth leol

**Graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon cronfeydd pensiwn llywodraeth leol**

| Holl gronfeydd pensiwn | Amrediad ffioedd £000 | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm | Canolrif 2013-14 |
| | 30 | 40 | 50 | 28 |